

# Prosiect SIARC: Cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (2023-2026)



## Y Bartneriaeth

### Partneriaid Arweiniol Prosiect SIARC



### Partneriaid Cyflawni Prosiect SIARC



### Partneriaid Cydweithredol Prosiect SIARC



Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth  
Aberystwyth School of Veterinary Science



Amgueddfa Genedlaethol y Glannau  
STORI DIWYDIANT A  
BLAENGAREDD CYMRU

National Waterfront Museum  
WALES' STORY OF  
INDUSTRY & INNOVATION



Casgliad y Werin Cymru  
People's Collection Wales



University College Dublin  
Ireland's Global University



**Cyfeirnod a argymhellir:** Lee, H.\*, Barker, J., Archer, L., Davies, J., Davies, S., Gollock, M., Halstead, R., Jones, N., Moses, K., Sutton, S., Whittey, K., Wray, B., Patel, S.± 2024 Prosiect SIARC: Prosiect SIARC: Cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (2023-2026). Cymdeithas Sŵolegol Llundain, DU.

\*yn dynodi prif awdur ± yn dynodi uwch-awdur

**Diolchiadau:** Hoffem ddiolch i bawb a roddodd eu mewnwleidiad am gadwraeth forol yng Nghymru, yn enwedig aelodau o'r gymuned o ardal Dolgellau, myfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor, y Geidiaid, a gwirfoddolwyr Prosiect SIARC. Hoffem hefyd ddiolch i'r holl gydweithwyr sydd wedi rhoi o'u hamser i adolygu, cyd-drafod a helpu i ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn, gan gynnwys Kathryn Hughes.

Cyfeiriwch bob gohebiaeth at Hannah Lee [Hannah.Lee@zsl.org](mailto:Hannah.Lee@zsl.org)

|                                                                                               |           |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Y Bartneriaeth .....</b>                                                                   | <b>2</b>  |
| <b>Rhagair: Prosiect SIARC .....</b>                                                          | <b>4</b>  |
| Pwy sy'n rhan o Brosiect SIARC? .....                                                         | 5         |
| Sefylla Prosiect SIARC.....                                                                   | 6         |
| <b>Pwrrpas cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Prosiect SIARC.....</b> | <b>8</b>  |
| Ein hymchwil a datblygiad.....                                                                | 8         |
| <b>Cynllun gweithredu .....</b>                                                               | <b>10</b> |
| Ein gweledigaeth .....                                                                        | 10        |
| Ein nodau .....                                                                               | 10        |
| <b>Meysydd gweithredu ac amcanion .....</b>                                                   | <b>11</b> |
| Llywodraethu fel prosiect yng Nghymru .....                                                   | 11        |
| Adeiladu dysgu .....                                                                          | 14        |
| Strategaeth gyfathrebu gynhwysol .....                                                        | 17        |
| Gweithio ar y cyd â chymunedau lleol .....                                                    | 18        |
| Pysgotwyr a gwyddonwyr yn cydweithio.....                                                     | 22        |

## Rhagair: Prosiect SIARC



Mae amgylchedd morol Cymru yn gyforiog o fywyd, ac yn gartref i gymunedau amrywiol o bysgod, gan gynnwys rhywogaethau o forgwn a morgathod (elasmobranciaid) nad ydynt wedi'u hastudio'n fanwl ac sydd o bwysigrwydd cadwraethol. Yn dilyn llwyddiant Prosiect y Maelgi: Cymru (2018-2022), lansiwyd Prosiect SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) ym mis Hydref 2021 fel prosiect amlddisgyblaethol.

Mae Prosiect SIARC yn defnyddio rhywogaethau elasmobranciaid blaenllaw yng Nghymru (y maelgi, y forgath las, y forgath gyffredin, y forgath drwynfain, y ci pigog a'r ci glas) i ddod â chymunedau lleol, pysgotwyr, ymchwilwyr a'r llywodraeth ynghyd i feithrin gwerthfawrogiad newydd o'r amgylchedd tanddwr yng Nghymru ac agor mynediad iddo. Rydym yn gweithio ar chwe phecyn gwaith rhyng-gysylltiedig sy'n dod â'r gwyddorau biolegol, cymdeithasol a pheirianeg ynghyd. Trwy Brosiect SIARC:

- Mae pysgotwyr a gwyddonwyr yn cydweithio i rannu gwybodaeth a phrofiadau
- Mae gwybodaeth bwysig yn cael ei chasglu i ddeall siarcod a morgathod yn well
- Mae ffyrdd i ystod ehangach o bobl gael mynediad i'r arfordir a'r môr a chael profiad ohonynt yn cael eu nodi trwy waith gyda phartneriaid lleol
- Mae plant ysgol yn defnyddio ffyrdd newydd o ddysgu i archwilio'r arfordir a'r môr
- Mae gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion a phrofiadau dysgu yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â chymunedau lleol
- Mae bywyd morol a diwylliant lleol Cymru yn cael eu dathlu


Cyflawnwyd 'Cam 1' Prosiect SIARC rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2023, gyda'r prosiect yn derbyn cyllid pellach gan Gronfa 2 Rhwydweithiau Natur ym mis Ebrill 2023 i gyflawni 'Cam 2' Prosiect SIARC, a fydd yn rhedeg rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2026. Ariennir 'Cam 2' Prosiect SIARC gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, y Gronfa Rhwydweithiau Natur, On the Edge, The Moondance Foundation, a'r Fishmongers' Company's Charitable Trust.

## Pwy sy'n rhan o Brosiect SIARC?



**Ddim yn y llun: Peter Dorrington, Helen Lewis, Dimitris Pletsas**

## Alumni:



## Sefylla Prosiect SIARC

Mae'r datganiad sefyllfa a ganlyn yn adlewyrchu sefyllfa deg aelod o staff y prosiect sy'n gweithio gyda physgotwyr ledled Cymru a gyda chymunedau lleol yng Ngogledd Cymru. Daw'r staff o'r sefydliadau partner arweiniol Cymdeithas Sŵleg Llundain a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a'r partneriaid cyflawni, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Drwy gydol ein bywydau a'n gwaith, rydym wedi gweld a phrofi rhai o'r ffyrdd y mae anghyfiawnder, diffyg cynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifedig a dynamig pŵer anwastad yn effeithio ar fynediad i gyfleoedd i bobl brofi byd natur. Rydym yn cydnabod nad yw ein profiadau a'n lleisiau yn gwbl gynrychioliadol o gymunedau sy'n byw yng Nghymru a thu hwnt. Ein dymuniad yw y gallwn, trwy gydwethio a chyd-ddatblygu, helpu i oresgyn anghyfiawnderau'r gorffennol a chreu newid ar gyfer dyfodol y sector cadwraeth a bywydau pobl sy'n byw yng Nghymru. Rydym yn ymroddedig i ysgogi'r newid hwn yn ein gwaith, a ategir gan ffocws gwaith penodol ar degwch, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymrwymiad tîm i gynyddu ein dealltwriaeth o bynciau sy'n ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn cydnabod y cyfyngiadau yn ein dealltwriaeth o rai o'r materion yr ydym yn gweithio i fynd i'r afael â nhw fel Prosiect SIARC ac yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio ar gyfer newid. O'r deg aelod o staff y mae'r datganiad hwn yn eu cynrychioli, mae saith ohonom yn fenywod a thri ohonom yn ddynion; rydym o ethnigrwydd Cymreig a Seisnig gydag unigolion â threftadaeth Gymreig, Gogledd Iwerddon, Seisnig, Albanaidd ac Americanaidd brodorol. Mae gennym oedran cymedrig o 35 (ystod: 27–49). Rhyngom rydym wedi dod i oed mewn lleoliadau gwledig a threfol yn y DU a thramor. Fel rhan o'n tîm, mae aelodau sy'n rhan o'r gymuned LHDTCRhA+ ac aelodau sy'n heterorywiol. O'r deg aelod o staff a gynrychiolir yma, nid oes gan unrhyw aelod o'r tîm unrhyw anableddau neu amhariadau corfforol. Fel tîm rydym yn niwroamrywiol, gyda rhai aelodau o'r tîm yn niwrowahanol a rhai yn niwronodweddiadol.

Mae dau ohonom yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac wyth ohonom yn ddysgwyr Cymraeg ac, o fewn y tîm, rydym hefyd yn siarad pum iaith arall yn ogystal â Chymraeg a Saesneg. Ar gyfartaledd, rydym wedi treulio 35% o'n bywydau rhyngom yn byw yng Nghymru, ac mae ein profiadau o fyw a gweithio yng Nghymru wedi dylanwadu'n sylweddol ar ein rhagolygon a'n dulliau o weithio yn y sector amgylcheddol. I bob un ohonom, mae'r môr a'r amgylchedd morol wedi chwarae rhan bwysig drwy gydol ein bywydau, er nad ydym ni i gyd wedi dod i oed ger y môr ac mae datblygiad y cysylltiad hwnnw'n amrywio o ddechrau yn ystod plentyndod i ers dod yn oedolyn. Mae'r cysylltiad hwn yn dylanwadu'n gryf ar y dewisiadau a wnawn heddiw, gan gynnwys ein hangerdd dros ddiogelu a dathlu amgylchedd morol Cymru, a gweithio tuag at fynediad teg i fannau glas i bawb rydym yn gweithio gyda nhw.

Mae'r tîm i gyd wedi cael y fraint o deithio'n rhyngwladol ar draws chwe chyfandir o'r byd rhyngom, gan gynnwys teithio ar gyfer ymchwil, gwyddor cadwraeth, hamdden a newidiadau bywyd. Mae'r cyfleoedd hyn wedi rhoi'r cyfle i ni brofi a dysgu o ddiwylliannau sy'n wahanol i'n diwylliant ni ein hunain a datblygu sgiliau gwahanol ar hyd y blynyddoedd. Mae ein teithiau wedi amlygu lefelau is o ymwybyddiaeth o'r bywyd gwyllt a'r cynefinoedd sydd i'w cael yn yr amgylchedd morol a dŵr croyw yn y DU. Mae'r profiadau hyn wedi atgyfnerthu ymrwymiad a rennir i eirioli dros wella mynediad a chyfleoedd i brofi byd natur yng Nghymru, heb fod angen teithio dramor. O fewn y tîm mae gennym ni wyth gradd BSc, naw gradd MSc, un radd MA a dwy ddoethuriaeth mewn pynciau amgylcheddol. Wrth ddod i oed, rydym wedi dod dan ddylanwad cefndiroedd ein teuluoedd, sy'n cynnwys gweithio yn y sectorau canlynol: amaethyddiaeth, yr amgylchedd, peirianeg, bwyd môr, gweinyddiaeth ac adnoddau dynol, amddiffyn milwrol, twristiaeth, gofal cymdeithasol, iechyd a llesiant, mwyngloddio, ymchwil fiolegol, cyllid, gweithgynhyrchu, adeiladu, addysg a'r cyfryngau. Rhyngom rydym wedi gweithio yn y sectorau lletygarwch, cadwraeth yr amgylchedd a bywyd gwyllt, twristiaeth a hamdden, chwaraeon, gofal anifeiliaid, y diwydiannau creadigol, ymchwil, adeiladu, y cyfryngau, gofal iechyd, manwerthu, digwyddiadau, ffermio, gweithgynhyrchu, plymio a'r gwasanaeth sifil, ac wedi gwirfoddoli i sefydliadau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd a chadwraeth bywyd gwyllt, gofal anifeiliaid, ymchwil wyddonol, cymorth i blant ac oedolion sy'n agored i niwed, a chymorth i ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches.

Rydym yn cydnabod y fraint y mae ein cefndiroedd wedi'i rhoi inni, fel yr amlinellir yma, a gwyddom fel tîm ein bod yn parhau i fod â llawer i'w ddysgu.

## Pwrpas cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Prosiect SIARC

Mae ymgysylltu â phobl o gefndiroedd amrywiol yn gwella arferion cadwraeth ac o fudd i ymchwil academiaidd ([Smith et al. 2017](#); [Resnik et al. 2015](#)). Mae Prosiect SIARC yn cydnabod bod yn rhaid gwneud mwy i amrywio cyfleoedd, drwy ddeall gwahanol gynulleidfaoedd (hunaniaethau), gwerthoedd ac anghenion, er mwyn apelio at ddemograffeg ehangach o bobl a chefnogi cynulleidfaoedd i ymgysylltu â chadwraeth forol yng Nghymru.

Rhwng 2023 a 2026, bydd Prosiect SIARC yn gweithio i gyflawni'r cynllun gweithredu hwn, sy'n canolbwyntio'n benodol ar gefnogi dull y prosiect o weithio gyda phartneriaid cymunedol lleol (amcanion 3 a 5 Prosiect SIARC) a phartneriaid yn y gymuned bysgota (amcanion 1 a 2 Prosiect SIARC) yng Ngogledd Cymru. Fel prosiect, byddwn hefyd yn gweithio'n frwd i gyfnewid yr hyn a ddysgwyd o gyflwyno'r cynllun gweithredu hwn i feysydd eraill o'n gwaith. Cynigir llunio adroddiad cynnydd canol tymor ar gyfer 2025 ar y cynnydd tuag at gyrraedd ein targedau, a chynhelir adolygiad o'r cynllun gweithredu hwn yn y cyfnod hyd at ddiwedd cyfnod ariannu presennol y prosiect ym mis Mawrth 2026 er mwyn llywio syniadau strategol pellach ar gyfer cam nesaf y prosiect.

### Ein hymchwil a datblygiad

Mae'r gwaith o lunio cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Prosiect SIARC 2023-2026 yn seiliedig ar yr adolygiad o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Prosiect SIARC rhwng 2021 a 2023, sy'n cyfuno gwaith a'r hyn a ddysgwyd o Gam 1 Prosiect SIARC, ymchwil yn y gymuned, profiadau partneriaid prosiect o fewn a thu hwnt i Brosiect SIARC, a chynghor gan ymarferwyr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Yng Ngham 1 Prosiect SIARC, bu partneriaid Prosiect SIARC yn gweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol lleol, pysgotwyr ac unigolion yng Ngogledd Cymru i gyflwyno gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion a chwblhau ymchwil i rwystrau rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth forol. Rydym wedi gweithio'n frwd i ymchwilio i'r rhwystrau sy'n atal unigolion o gymunedau ffermio, pobl ifanc yn y coleg, pobl ifanc mewn prifysgolion, unigolion ag anableddau neu amhariadau corfforol, unigolion niwrowahanol, unigolion sy'n nodi eu bod yn wryw a benyw, ac unigolion o genedligrwydd Cymreig a Seisnig rhag cymryd rhan mewn cadwraeth forol (gweler yr adolygiad o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Prosiect SIARC rhwng 2021 a 2023). Er ein bod wedi rhoi ein hymdrechion gorau o fewn Prosiect SIARC i weithio gyda chynulleidfa ehangach, rydym yn cydnabod hyd yma nad ydym wedi gweithio'n helaeth eto gydag unigolion o gymunedau ethnig sydd wedi eu lleiafrifo'n gyson neu aelodau o'r gymuned LHDTCRhA. Rydym hefyd yn cydnabod

ein bod wedi gweithio gyda nifer cyfyngedig o unigolion ac nad yw eu profiadau personol yn drosglwyddadwy i bob unigolyn sydd â nodweddion gwarchodedig tebyg a rennir.

Gyda chefnogaeth y cynllun gweithredu hwn, nod Prosiect SIARC yw creu gwaddol a fydd yn ystyried buddiannau a blaenoriaethau'r cynulleidfaoedd hynny a fydd yn elwa fwyaf. Trwy'r gwaith hwn, mae Prosiect SIARC yn llenwi bwlch gwybodaeth hanfodol ac yn nodi dull y gallai sefydliadau a phrosiectau eraill ddymuno ei wella neu ei fabwysiadu. Fel tîm, ein nod yw aros yn hyblyg ac ymaddasol, ac rydym yn croesawu ac yn annog trafodaeth a sgysiau myfyriol pellach yn ymwneud â'r gwaith hwn.

## Cynllun gweithredu

### Ein gweledigaeth

Agwedd gynhwysol a theg at gadwraeth forol trwy ein gwaith yng Nghymru lle mae Prosiect SIARC yn gweithredu mewn gofod sy'n gefnogol a meithringar ac sy'n rhannu galluedd gyda physgotwyr a chymunedau, lle mae amrywiaeth o gyfleoedd ar gael ac yn hygyrch.

### Ein nodau

Cyflawnir ein gweledigaeth drwy ddau nod cydgysylltiedig:

- Bydd amgylchedd morol Cymru yn ymgysylltu ag amrywiaeth o hunaniaethau ac yn eu gwasanaethu.
- Byddwn yn ymdrin â'r diffyg amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Prosiect SIARC, a thrwy hynny gyfrannu at newid systemig ehangach.

## Meysydd gweithredu ac amcanion

### *Llywodraethu fel prosiect yng Nghymru*

Bydd y Gymraeg a diwylliant a threftadaeth leol wedi'u hintegreiddio'n llawn yn y gwaith o gyflawni'r prosiect erbyn 2026

| Tasg                                                                                                                           | Cam gweithredu                                                                                         | Dangosyddion                                                                                                                                                                                      |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Integreiddio cyd-destun, iaith, hanes, diwylliant ac enwau lleoedd Cymreig a Chymraeg trwy gydol rhaglen waith Prosiect SIARC. | Cynnig cyrsiau Cymraeg i'r holl staff sy'n gweithio i Brosiect SIARC yng Nghymru                       | Cynnig cyrsiau i staff<br>Staff yn manteisio ar y cyrsiau<br>Cyrsiau a gwblhawyd gan staff<br>Cynnig sesiynau blasu i staff nad ydynt yn gweithio yng Nghymru                                     |
|                                                                                                                                | Cyflwyniadau a chyfarchion dwyieithog yn ystod cyfarfodydd, cyflwyniadau a digwyddiadau Prosiect SIARC | Cyfarchion agoriadol a ffarweliadau yn ddwyieithog ym mhob cyfarfod partneriaeth<br>Sylwadau agoriadol a sylwadau clo gan staff<br>Prosiect SIARC yn ddwyieithog ym mhob cynhadledd a chyflwyniad |
|                                                                                                                                | Modiwl dysgu'r Gymraeg ac am ddiwylliant a threftadaeth leol ar gyfer staff Prosiect SIARC             | Mae pob aelod o'r tîm prosiect o Gymdeithas Sŵlegol Llundain a Chyfoeth Naturiol Cymru (staff presennol a newydd) yn cwblhau'r modiwl dysgu Cymraeg ac am ddiwylliant a threftadaeth              |

|                                                         |                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|---------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                         |                                                                                   | <p>leol wedi'i deilwra gan Brosiect SIARC fel rhan o'r broses sefydlu, o fewn tri mis i ymuno â'r tîm</p> <p>Modiwl wedi'i deilwra i fod ar gael fel adnodd hunanastudio ar gyfer Partneriaeth Prosiect SIARC</p>                                                                                                                                                                                                                   |
|                                                         | Cyfarchion dwyieithog mewn e-byst, negeseuon allan o'r swyddfa, llofnodion e-bost | <p>Polisi Iaith Gymraeg Prosiect SIARC wedi'i ddatblygu</p> <p>Mae pob e-bost sy'n ymwneud â busnes Prosiect SIARC yn cynnwys cyfarchiad dwyieithog a neges glo ddwyieithog</p> <p>Datganiad ar ddiwedd pob e-bost yn nodi ein bod yn croesawu cyfathrebiadau dwyieithog</p> <p>Mae pob llofnod e-bost aelodau o'r tîm prosiect ar gyfer Prosiect SIARC o Gymdeithas Sŵolegol Llundain a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ddwyieithog</p> |
| Cynyddu cyflogaeth staff sydd wedi'u lleoli yng Nghymru | Cynnwys meini prawf mewn hysbysebion swyddi ynglyn â lleoliad yr unigolyn         | Mae pob hysbyseb yn cynnwys meini prawf ynghylch lleoliad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |

|                                                                                                    |                                                                                                                       |                                                                                                                                                      |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                    | Gofyn am wybodaeth o'r Gymraeg a/neu awydd i ddysgu Cymraeg<br>mewn hysbysebion swyddi                                | Mae pob hysbyseb yn nodi gofyniad<br>gwybodaeth o'r Gymraeg a/neu awydd i ddysgu<br>Cymraeg                                                          |
| Cynyddu cyfleoedd yn y sector<br>cadwraeth yng Nghymru                                             | Treialu interniaethau neu brentisiaethau â thâl i gefnogi datblygiad gyrfa<br>yn y sector cadwraeth yng Nghymru       | Un cynllun interniaeth peilot wedi'i gyflwyno a'i<br>werthuso                                                                                        |
|                                                                                                    | Datganiadau sy'n cyfeirio at degwch ac amrywiaeth mewn hysbysebion<br>swyddi yn ystod recriwtio                       | Mae pob swydd newydd yn cynnwys datganiad<br>o degwch ac amrywiaeth                                                                                  |
| Cynyddu cyfleoedd i unigolion<br>o gefndiroedd lleiafrifol yn y<br>sector cadwraeth yng<br>Nghymru | Cyflwyno un gweithdy cadwraeth cynhwysol<br><br>Archwilio camau gweithredu pellach i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael | Cyflwynwyd un gweithdy<br><br>Un gweithdy wedi'i werthuso<br><br>Dysgu o'r gweithdy wedi'i integreiddio i<br>archwilio camau gweithredu yn y dyfodol |

### *Adeiladu dysgu*

Bydd Partneriaeth Prosiect SIARC yn dod at ei gilydd i rannu a hybu ein dysgu, ein gallu, a'n hyder i weithio gyda chynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol a materion yn ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

| <b>Tasg</b>                                                                                                                   | <b>Cam gweithredu</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                  | <b>Dangosyddion</b>                                                                                                                                                                                                                                                    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cyfnewid yr hyn a ddysgwyd o waith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ag eraill y tu allan i bartneriaeth Prosiect SIARC | Cyfnewid dysgu a phrofiadau ag eraill sydd â chysylltiadau â sector yr amgylchedd                                                                                                                                                                                                                      | Mae rhwydwaith cysylltiadau Prosiect SIARC wedi cynyddu<br><br>Mae adroddiadau a gwersi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Prosiect SIARC ar gael yn agored                                                                                                       |
|                                                                                                                               | Cyfnewid dysgu a phrofiadau gydag ymarferwyr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant                                                                                                                                                                                                                   | Mae staff Prosiect SIARC wedi ymuno ac ymgysylltu â digwyddiadau rhwydweithio a chyfarfodydd un-i-un ac wedi cyfnewid gwybodaeth trwyddynt                                                                                                                             |
| Hyrwyddo dysgu, gallu a hyder staff Prosiect SIARC ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a phynciau tebyg                | Nodi a chyflwyno hyfforddiant yn ymwneud â phynciau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer tîm a phartneriaid Prosiect SIARC, e.e. mynd i'r afael â rhagfarnau diarwybod, gwrando gweithredol yn erbyn gwrando dwfn, adnabod ac ymateb i achosion o fod yn ficroymosodol, bod yn wrth-hiliol | Hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei ddarparu trwy o leiaf un gweithdy pwrpasol gyda 25 o bobl ar draws tîm Prosiect SIARC a'i bartneriaid<br><br>Hyfforddiant a chyfleoedd dysgu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant parhaus ar gael i |

|                                                   |                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|---------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                   |                                                                                                                        | staff sydd wedi'u lleoli yn sefydliadau partneriaid arweiniol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|                                                   | Mae staff yn neilltuo amser i ymarfer dysgu personol ac yn cymryd rhan mewn cyfleoedd mentora ac ymarfer myfyriol      | Mae pob tîm prosiect o Gymdeithas Sŵolegol Llundain a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi neilltuo un awr yr wythnos i ddysgu am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Rhannu dysgu ar draws partneriaeth Prosiect SIARC | Cyfnewid dysgu sy'n ymwneud â gweithredu dulliau o ehangu effaith ddemograffig ar draws pecynnau gwaith Prosiect SIARC | <p>Yr adolygiad a chynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u lledaenu drwy'r bartneriaeth a'u rhannu gyda chydweithwyr</p> <p>Ar ôl cyhoeddi, mae adborth ac adolygiad beirniadol wedi'u hannog a'u derbyn yn frwd ar ddull y prosiect o ehangu cynhwysiant yng ngweithgareddau'r prosiect</p> <p>Diweddariadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u hintegreiddio i ddiweddariadau partneriaeth Prosiect SIARC a chyfarfodydd partneriaid cyflawni a'r grŵp llywio, ac mae amser ar gael i drafod gweithredu gwersi cydraddoldeb, amrywiaeth a</p> |

|                                                                                                   |                                                                                                                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                   |                                                                                                                    | chynhwysiant mewn meysydd gwaith partneriaid                                                                                                                                                                                                                                    |
| Caniatáu mwy o amser ar gyfer gweithredu effeithiol ac eang, gan ganiatáu ar gyfer gallu i addasu | Neilltuo amser i geisio cyllid yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar raniad teg rhwng ffocws biolegol a chymdeithasol. | <p>Mae gan reolwyr prosiect amser wedi'i neilltuo i gwmpasu cyllid o ffrydiau ariannu amrywiol</p> <p>Mae gwerthoedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a rhaniad teg rhwng ffocws biolegol a chymdeithasol yn cael eu hintegreiddio i bob cais am gyllid yn y dyfodol</p> |

### *Strategaeth gyfathrebu gynhwysol*

Bydd Prosiect SIARC yn cyrraedd ystod eang ac amrywiol o bobl, yn rhoi'r newyddion diweddaraf i bobl, ac yn cadw mewn cysylltiad â chynulleidfaoedd lleol

